# Ysgol Sarn Bach

# Polisi Gwaith Cartref

***Dyddiad Cymeradwyo/Date Adopted:***

***Dyddiad Adolygu/Review Date:***

**Llofnodwyd gan y Cadeirydd ar ran y Llywodraethwyr:**
**_______________________________________________________**

**Dyddiad: _____________________________**

## Pam gosod Gwaith Cartref ?

Mae gwaith cartref yn gallu cefnogi datblygiad academaidd plant os ydy o`n atgyfnerthu gwaith y dosbarth neu yn rhoi cyfle i blant ddatblygu sgiliau sylfaenol .

## Mathau o waith cartref

<u>Darllen gartref</u>

Credwn yn gryf mai darllen rheolaidd yw`r math bwysicaf o waith cartref. I`r perwyl hwn anogwn pob plentyn i ddarllen gartref bob nos. Darperir bagiau darllen i pob disgybl sydd yn cychwyn yn yr ysgol yn ogystal a chofnod darllen dyddiol. Byddwn yn cadw cofrestr o ddisgyblion sydd wedi darllen bob nos ac yn gwobrwyo dosbarthiadau o ddisgyblion sydd yn darllen yn rheolaidd.

*"Reading is important, because if you can read, you can learn anything about everything and everything about anything." — Tomie dePaola*

<u>Y Blynyddoedd Cynnar</u>

Mae dysgu darllen a datblygu i fod yn ddarllenydd annibynnol yn rhan bwysig o ddatblygiad plentyn. Credwn fod rôl bwysig gan y rhieni yn y broses hon, ac anogwn iddynt ddarllen gyda'i plentyn yn rheolaidd, darllen iddynt a rhannu hwyl llyfrau gan ennyn

diddordeb a meithrin mwynhad. Cydnabyddwn nad yw darllen yn y Gymraeg yn bosib neu'n rhwydd iawn i rai rhieni, ond mae edrych ar y lluniau a thrafod trefn beth sydd yn digwydd mewn stori yn werthfawr dros ben i blentyn ifanc.

Darllen annibynnol

Wrth iddynt ddod yn ddarllenwyr annibynnol anogir y plant i ddarllen bob nos, hwyrach y bydd angen cymorth gan rieni arnynt, fel bo'n addas. A'r plant â llyfr darllen difyr, Cymraeg a Saesneg pan nhw`n barod i ddarllen yn y Saesneg, adref yn ddyddiol. Wrth i blant ddarllen llyfrau fwy heriol nad yw`n bosibl gorffen mewn noson anogir y plant i ddarllen rhywfaint bob nos a dod a`r cofnod i`r ysgol gyda nhw yn ddyddiol er mwyn i ni allu cofnodi hyn ar ein cofrestr darllen .

Anogwn y plant a'r rhieni i ymweld â'r llyfrgell leol yn gyson ac yn rheolaidd er mwyn benthyca llyfrau.

Gwaith cartref sydd yn cefnogi gwaith dosbarthiadau

Sgiliau sylfaenol

Credwn fod ymarfer sgiliau sylfaenol yn rheolaidd yn holl bwysig i ddatblygiad academaidd pob plentyn, dyma`r ffordd orau i gefnogi`r gwaith oddi fewn i ddosbarthiadau. Er mwyn i blant allu ymarfer y sgiliau yma yn rheolaidd rydym wedi sicrhau fod yna amrywiaeth o adnoddau ar eu cyfer ar HWB. Mae gan pob plentyn drwy`r ysgol gyfrif HWB, cysylltwch gyda`r ysgol am fanylion mewngofnodi os oes angen. Mae`r adnoddau yma wedi eu rhannu mewn 3 "classroom", un ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen , un arall ar gyfer plant Cyfnod Allweddol 2 ond mae croeso i chi ddefnyddio adnoddau o unrhyw un o`r ddau er mwyn cynnig lefel addas o her i blant. Mae`r adnoddau yma yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau rhifedd a llythrennedd disgyblion ac am ei bod ar gael yn ddigidol mae llawer iawn o gemau hwyliog yn gallu cael eu cynnwys er mwyn gwneud y math yma o waith cartref yn hwyliog i`r plant.

Gwaith Cartref fel arall

O bryd i'w gilydd mae athrawon yn gosod gwaith cartref fel arall i blant. Mae hyn yn gallu digwydd pan mae`r gwaith yma yn cefnogi beth sydd yn digwydd yn y dosbarth, gall fod yn waith ymchwil neu yn waith cofnodi. Mae hyn yn dueddol o ddigwydd fwy fel mae`r plant yn mynd yn hyn ac mi fyddant yn derbyn esboniad clir o beth yn union i'w wneud ac erbyn pryd.